ATODLEN 1

Rheoliad 15(2)

RHAN 2

MATERION I'W CYNNWYS YN ADRODDIAD IECHYD Y PLENTYN

1. Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra.

2. Adroddiad newyddenedigol ar y plentyn, gan gynnwys—

(a) manylion am ei enedigaeth, ac unrhyw gymhlethdodau;

(b) canlyniadau archwiliad corfforol a phrofion sgrinio;

(c) manylion unrhyw driniaeth a roddwyd;

(ch) manylion unrhyw broblemau mewn rheoli a bwydo;

(d) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel;

(dd) enw a chyfeiriad unrhyw feddyg a allai roi gwybodaeth bellach am unrhyw un o'r materion uchod.

3. Hanes iechyd y plentyn yn llawn, gan gynnwys—

(a) manylion o unrhyw salwch difrifol, anabledd, damwain, derbyn i ysbyty neu fynychu adran cleifion allanol, ac ym mhob achos unrhyw driniaeth a roddwyd;

(b) manylion a dyddiadau imwneiddio;

(c) asesiad corfforol ac asesiad o ddatblygiad yn ôl oedran, gan gynnwys asesiad o'r llygaid a'r clyw a datblygiad niwrolegol, llafaredd ac iaith ac unrhyw dystiolaeth o anhwylder emosiynol;

(ch) hanes ei iechyd gan yr ysgol (os yw ar gael);

(d) sut y mae iechyd corfforol a iechyd meddwl y plentyn a'i hanes meddygol wedi effeithio ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ddatblygiad ei ymddygiad;

(dd) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a all gynorthwyo'r panel mabwysiadu.

4. Llofnod, enw, cyfeiriad, Rhif ffôn a chymwysterau'r ymarferydd meddygol cofrestredig a baratôdd yr adroddiad, dyddiad yr adroddiad a'r archwiliadau a wnaed ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw feddyg arall a all roi gwybodaeth bellach am unrhyw rai o'r materion uchod.